

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 3ydd o Fedi, 2020 drwy 'Zoom', am 8:00y.h.

Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.

Yn bresennol drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Aled Davies (Cadeirydd), Aled Evans, Trefor Wyn Jones, Naomi Jones, Thomas Prys Jones, Tegid Jones, Darren Morley, Angela Williams, Sian Angharad Parry, William Ifor Hughes a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau: Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Anwen Jones, Ceri Jones, Margaret Griffith, Sion Aled Jones, a Gareth O.Davies.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 9fed o Orffennaf 2020. Bydd angen i'r Clerc wneud trefniadau i'r Cadeirydd ei llofnodi cyn cyfarfod mis Hydref 2020.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst 2020 - (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi cyn y cyfarfod ar 01.09.2020).

4. Datgan buddiant personol -

a) Cynghorydd Aled Davies, datgan buddiant personol yn rhif 22 a 23 o'r ceisiadau cynllunio, Cae Bodlondeb, ger Ael y Bryn, Chwilog, oherwydd ei fod yn byw gerllaw.

b) Cynghorydd Tegid Jones, datgan buddiant personol yn rhif 7, sef Gardd Gymunedol Y Plu, oherwydd ei fod yn gysylltiedig â'r fenter.

b) Cynghorydd Naomi Jones, datgan buddiant personol yn rhif 7, sef Gardd Gymunedol Y Plu, oherwydd ei bod yn gysylltiedig â'r fenter.

c) Cynghorydd Aled Evans, datgan buddiant personol yn rhif 7, sef Gardd Gymunedol Y Plu, oherwydd ei fod yn gysylltiedig â'r fenter.

5. Materion gan Cyngor Gwynedd

6. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned. (wedi derbyn sylwadau drwy ebyst gan y Cynghorwyr (fis Awst 2020) oherwydd nad oeddem yn cyfarfod am rai wythnosau drwy fis Gorffennaf ag Awst, ac ar ol ymgynghori gyda'r Cadeirydd) :-

a) Cais Rhif:C20/0579/41/DT - Hen Reithordy, Llanarmon, LL53 6PU - codi modurdy. Dim gwrthwynebiad

b) Cais C20/0579/41/DT - Bod Euron, Chwilog, LL53 6SH - codi estyniad ar gefn yr eiddo. Dim gwrthwynebiad.

c) Cais C20/1008/TC - Pensarn, Rhoslan, LL52 0ND - Cyfreithloni defnydd gosod 3 carafan statig - Dim gwrthwynebiad, ond teimlo fod yr achos yn gymhleth o safbwynt ceisio dehongli'r hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol, a bod angen ei ddatrys yn gyfreithlon.

Materion yn y gymuned.

7. Llanystumdwy

Gardd gymunedol, Y Plu

Cais am lythyr o gefnogaeth gan y Cyngor, am eu bwriad i greu gardd gymunedol ar dir sydd tu ol i'r Plu. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr o gefnogaeth.

8. Pont Llanystumdwy - clirio tir y Cyngor yn Maenywern - mae Mr Richard Hubbard wedi chwistrellu'r canclwm oedd yno, ac mae Mr Gareth Jones wedi glirio'r lle wedyn. Mae'r Clerc yn disgwyl ateb hefo cael prisiau i dorri'r brigau sydd yn hongian dros y clawdd ar hyd y lon o'r bont am y bedd, mae wedi cysylltu â Mr William Williams, Plas Newydd, Chwilog a Mr Alun/ Bryn Jones, Penbryn, Llangybi. Eglurwyd fod Mr Alun/Bryn Jones, Penbryn o'r farn byddai ei peiriannau rhy fawr i'r lle ac felly ddim am roi pris, felly gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Erfyl Lloyd, Castellcoed, Chwilog i gael pris arall.

9. Rhoslan/Ynys

a) Coeden yn hongian ar draws y lon, ger Coedcaedu, Ynys, Cricieth, a bod ei gwreiddiau wedi codi ac yn pwysu ar goeden arall, a'i bod yn edrych yn beryglus - Clerc wedi anfon ebost at Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, ac mae'r gwaith wedi cael ei wneud erbyn hyn.

b) Man pasio ger Fron Oleu Uchaf - derbyniwyd ymholiad gan y cyhoedd, a bu'r Is-gadeirydd yn gweld y safle. Yna gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiad hefo Cyngor Gwynedd i holi os oedd yn bosib:

- clirio'r man pasio sydd wrth ymyl Fron Oleu Uchaf. Mae'r man yn fwdlyd ar hyn o bryd efo darnau mawr o faw arno, a byddai cerbydau mawr yn cael trafferth pasio eu gilydd fel ag y mae o rwan. Angen gofyn i Cyngor Gwynedd gasglu'r baw.
- y gongl sydd wrth ymyl Fron Oleu Uchaf pan yn mynd am gyfeiriad Capel y Beirdd. Maent yn clywed cerbydau yn brecio'n sydyn ac yn canu corn ar eu gilydd oherwydd mae'n anodd gweld o gwmpas y gongl. Roeddent yn holi tybed oes modd clirio'r clawdd fel bod hi'n haws i gerbydau weld os oes rhywun neu rhywbeth yn dod o'r cyferiad arall. Mae nhw hefyd yn bryderus am blant lleol sydd yn dueddol o fynd am dro ar y darn yna o'r lon.

Gwnaeth y Clerc anfon ebost at yr Adran Priffyrdd ac fe ffoniodd Mr A.Roberts y Clerc yn nol i egluro ei fod wedi ymweld â'r safle, ond nid oedd yn meddwl byddai'r Cyngor yn gallu gwneud y gwaith. Roedd am drefnu i ymweld â'r lleoliad i drafod y mater â pherchennog yr eiddo. Derbyn, ond aros i weld beth oedd y canlyniad ar ol ei ymweliad.

10. Chwilog

11. Pencaenewydd/Sardis

a) Derbyn cais i ofyn wrth Cyngor Gwynedd am arwydd 'Dim baw cwn' yn y pentref, oherwydd fod problem yno. - Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am arwydd.

b) Arwydd ger Llanarmon - yr arwydd wedi malu. Y Clerc wedi anfon llun i Adran Priffyrdd er mwyn trefnu i'w drwsio. Mae ar y lon rhwng croesffordd Castellcoed, Chwilog yn mynd am Llanarmon. Yr arwydd wedi cael ei drwsio rwan.

12. Llangybi

a) Llywodraethwr Cymuned Ysgol Llangybi- Angen ethol Llywodraethwr fel aelod cymunedol newydd i ysgol, o fis Medi 2020 ymlaen, yn sgil bod Mr Mark Barlow yn rhoi y gorau iddi ar ol deuddeg mlynedd. **Trafodwyd y mater, ac fe wnaeth y Cynghorydd Angela Williams gynnig y byddai yn gwneud ymholiadau yn ystod y mis a thrafod hefo Prifathrawes yr ysgol, a'i drafod mis nesaf.**

b) Ciosc - un gwydr gwaelod wedi malu yno - y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd, ac fe wnaethant fynd yno i glirio'r gwydr. Oherwydd fod peth amhaeaeth mai peiriant contractwr yn torri gwellt wnaeth achosi'r difrod, mae'r mater wedi cael ei basio i Adran Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd ers 29.07.2020, ond heb gael ateb eto. **Y Clerc wedi holi eto cyn y cyfarfod, ond heb dderbyn ymateb, felly bydd angen gwneud ymholiadau pellach.**

c) Cae chwarae Llangybi- y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i weld beth oedd ei trefniadau ar gyfer gweddill y caeau oedd o dan ei gofal nhw. Trafodwyd y mater hefo Amanda Murray, Cyngor Gwynedd, ac fe gytunodd i anfon arwydd dwyieithog at y Clerc (fel y rhai sydd yn y meysydd chwarae eraill yn nodi rheolau), er mwyn ei osod yn Llangybi. Mae hyn wedi cael ei wneud rwan. **Derbyn.**

13. Enwau lleol - Cais i ystyried gosod arwyddion o enwau lleol yn y gymuned, sef enwau pontydd, afonydd, enw cynhenid ambell groesffordd, a'i gwneud yn weledol i bawb ei gwybod a'i defnyddio i'r dyfodol.

Y Clerc wedi cysylltu hefo Mr Dylan Wynn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau, Cyngor Gwynedd i holi os oes angen cael caniatâd arbennig cyn gallu parhau hefo'r gwaith. Mr Jones wedi cysylltu nol i ofyn os oedd "gennym leoliadau a dyluniadau'r arwyddion yr ydym yn awyddus i'w gosod", er mwyn iddo allu rhoi sylw teg i'r cais. **Penderfynwyd trafod y camau nesaf yn ein cyfarfod fis Hydref.**

14. Codi tâl am fynediad i'r Wyddfa - derbyniwyd cais gan Cyngor Cymuned Llanlyfni yn gwneud cynnig i alw ar y Cyngorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd i alw cyfarfod gyda rhanddeiliaid Yr Wyddfa yn Siambr y Cyngor tua mis Hydref, i drafod sut mae modd codi tâl, ac elwa llawer mwy ar ymwelwyr sy'n cerdded yr Wyddfa. **Trafodwyd y mater, gan ofyn wrth y Clerc anfon llythyr i ddweud fod angen ymchwilio i'r broblem i weld beth sydd yn ymarferol i'w wneud i ddatrys y broblem.**

15. Un Llais Cymru - hyfforddiant ar gael drwy 'webinar' - cynnig cyrsiau i gynghorau. **Neb yn dangos diddordeb ar hyn o bryd.**

Materion Ariannol

16. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Roedd y Clerc wedi anfon epost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 02.09.2020, a dogfen arwahân yn dangos rhagolwg o'r gwariant hyd at ddiwedd y flwyddyn. Eglurwyd nad oedd y bil am £2000.00 ar gyfer toiledau cyhoeddus Llanystumdwy wedi cyrraedd eto. **Derbyn.**

17. Archwiliad Allanol Cyfrifon 2019-20.

Y Clerc heb glywed dim gan yr Archwilwyr Allanol. Mae hefyd wedi gosod yr hysbysiad ar y wefan.

18. **Cyflog y Clerc.** Derbyniwyd gwybodaeth gan ALCC/SLCC (26.08.2020) yn cadarnhau fod y Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi codi cyflogau Clercod i 2.75% yn nol i'r 01.04.2020. Bydd graddfa cyflog y Clerc felly'n codi o fod yn £10.57 yr awr i fod yn £10.83. Mae'r raddfa yn aros yr un fath ers 01.04.2020, sef pwynt rhif 9, (mae graddfa cyflog y Clerc rhwng rhif 7 - 12).

Felly, mae cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol o Ebrill 2020 ymlaen yn £10.83 yr awr x 35 awr y mis = £379.05, (yn lle £369.95 y mis). Roedd y Clerc wedi dangos y manylion perthnasol i'r Cadeirydd o flaen y cyfarfod ar 01.09.2020, felly derbyniwyd hyn ar y noson.

19. **Treth ar werth**-y Clerc wedi hawlio **£1113.65 o'r flwyddyn rhwng 01.04.2019 - 31.03.2020. Derbyn.**

20. Praesept - derbyn yr ail daliad o £9000.00 gan Cyngor Gwynedd.

21. Un anfoneb wedi cael ei dalu fis Awst 2020 yn dilyn caniatâd gan y Cadeirydd:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS
Richard Hubbard <i>Y bil wedi cael ei dalu drwy ganiatâd y Cadeirydd</i>	Chwistrellu canclwm tir Maen y Wern, Llanystumdwy	<u>50.00</u>		<u>50.00</u>	<u>50.00 wedi cael ei dalu 19.08.2020</u>
Enw/Rheswm	Rheswm	<u>Pris</u>	<u>TAW</u>	<u>Cyfanswm Taliad</u>	<u>Taliad BACS</u>
Angen ei dalu ar ol y cyfarfod: Gareth Jones Garden Maintenance, Tŷ Gwyn, Caeathro	Gwaith torri brigau a strimio tir y Cyngor Maen y Wern Llanystumdwy	<u>150.00</u>		<u>150.00</u>	<u>150.00</u>

Cyflog mis Awst 2020 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS:- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Awst 2020 35 awr x £10.83 = £379.05 (ac ol-daliad codiad cyflog 2.75% rhwng 01.04.2020- 31.07.2020, sef 0.26 ceiniog yn fwy yr awr x 35 awr y mis=£9.10x 4 mis =£36.40)	379.05 - & ol-daliad <u>36.40=£415.45</u> Llai treth £83.20 = £332.25	<u>332.25 (cynnwys Awst ac ol-daliad i Ebrill 2020)</u>	<u>332.25</u>

Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Awst 2020, £379.05 a £36.40=£415.45	416.00 x 20% = £83.20	<u>83.20</u>	<u>83.20</u>
Costau'r Clerc Awst 2020	£16.65	<u>16.65</u>	<u>16.65</u>

Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf nos Iau 01.10.2020, drwy 'Zoom'.

Hefyd trefnwyd cynnal cyfarfod busnes/cyllid ar yr un noson o flaen y prif gyfarfod fis Hydref 2020.

MATERION WEDI CYRRAEDD YN HWYR

Derbyniwyd caniatâd gan y Cadeirydd i'w trafod ar ddiwedd y cyfarfod.

Ceisiadau cynllunio -

22. **Cae Bodlondeb, ger Ael Y Bryn, Chwilog**, LL53 6SH, C20/0673/41/MG - cais ar gyfer materion a gadwyd yn ol a gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth cam mewn cyswllt a chaniatad cynllunio amlinellol C16/1603/41/AM ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad. **Cefnogi.**

23. **Cae Bodlondeb, ger Ael y Bryn, Chwilog**, LL53 6SH, C20/0674/41/MG - cais ar gyfer materion a gadwyd yn ol a gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth gam mewn cysylltiad a chaniatad cynllunio amlinellol C16/1363/41/AM ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad. **Cefnogi.**

24. **O Ddrws i Ddrws** - wedi gofyn am rodd gyfraniad ariannol hyd at £500.00. **Cytunwyd i roi rhodd o £500.00 eto eleni oherwydd ei fod yn cynnig gwasanaeth arbennig i drigolion yr ardal.**

25. **'Sgam'** - ebyst amheus, wedi derbyn gwybodaeth gan Un Llais Cymru. **Fe rannwyd y wybodaeth a ddaeth gan Un Llais Cymru gan ofyn wrth y Cynghorwyr fod yn wylidwrs ac i ddileu unrhyw ebost amheus. Derbynydd.**

26. **Coed peryglus** - mynedfa'r Orsedd Fawr, Pencaenewydd/ a changen sylweddol gyferbyn a beudai 'Lodge'. **Gofynnwyd i'r Clerc hysbysu Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.**

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.